Yr Arlunydd Prudd

(dyfalbarhad / gonestrwydd)

Fyddwch chi weithiau o dan y felan? Fyddwch chi'n teimlo'n gas a sarrug tuag at bawb a phopeth? Dyn felly oedd yr arlunydd Vincent van Gogh. Dyn anhapus iawn oedd o ac os edrychwch ar y lluniau ohono ef ei hun nid yw byth yn gwenu; y mae bob amser yn edrych yn drist. Cyn iddo benderfynu bod yn arlunydd roedd wedi gwneud llawer o bethau cyn hynny. Bu'n gweithio mewn oriel gwerthu darluniau. Bu'n athro am gyfnod ac wedyn yn werthwr llyfrau. Yna dilynodd ei dad fel pregethwr, ond roedd yn anhapus iawn ymhob swydd. Doedd dim amdani ond mynd i ysgol arlunio i ddysgu popeth am y grefft honno.

Roedd ei ddarluniau cynnar yn cynnwys pobl yr oedd wedi eu cyfarfod pan oedd yn bregethwr. Pobl dlawd oedd y rhain. Roedden nhw bob amser yn edrych yn flinedig a thrist. Byddai Van Gogh yn ceisio cyfleu hyn yn y lluniau duon a thywyll. Un o'i ddarluniau enwocaf sy'n cyfleu'r tristwch hwn yw darlun o deulu yn cael pryd o datws. Mae'r ystafell yn edrych yn dlodaidd a thywyll, dim ond lamp olew yn crogi uwchben y bwrdd. Mae un plataid o datws a phob un o'r pump yn helpu ei hun i'r cynnwys. Ond daeth tro ar fyd. Darganfu ddarluniau o Japan. Roedd y rhain yn lliwgar a hapus yr olwg. Dechreuodd efelychu lliwiau'r arlunwyr Japaneaidd.

Pan fyddai Van Gogh yn drist byddai'n ysgrifennu llythyrau at ei frawd Theo. Yn ei dro byddai ei frawd yn sgrifennu'n ôl ato i'w annog i ddal ati a byddai'n anfon arian ato. Symudodd Van Gogh i Baris i fyw at ei frawd. Bryd hynny roedd Paris yn ganolfan i arlunwyr mawr y byd. Ond ymhen dim roedd Van Gogh wedi symud o'r brifddinas i dref fechan o'r enw Arles. Penderfynodd y byddai'n syniad da i arlunwyr ddod at ei gilydd i'r dref hon i drafod syniadau ond dim ond un, Paul Gauguin, a fentrodd. A chamgymeriad mawr oedd hwn. Roedd y ddau'n dadlau ac yn cweryla'n feunyddiol. Byddai Van Gogh yn mynd i dymer mawr ac un diwrnod torrodd ei glust i ffwrdd yn ei wylltineb. Mae'r llun o Van Gogh a bandais ar ei glust dde i'w weld heddiw yn un o orielau Llundain.

Pan oedd yn fyw doedd fawr o neb yn talu sylw i'w ddarluniau. Roedd ei luniau cynnar yn dywyll a thrist a'i ddarluniau

diweddar yn llachar ac fel petaen nhw'n "fyw." Barn eraill oedd ei fod yn defnyddio gormod o lawer o baent. Byddai'n brin o baent yn aml iawn.

O dro i dro, byddai'n mynd heb fwyd er mwyn iddo gael prynu mwy o baent. Weithiau byddai'n peintio mor gyflym fel nad oedd ganddo amser i gymysgu'r gwahanol liwiau'n iawn. Ond efallai mai un o'r darluniau enwocaf o'i luniau hapus yw hwnnw o'r blodau haul. Maen nhw'n edrych mor fyw fel y gallech eu harogli!

Ei ddarlun olaf oedd y 'Cae gwenith a'r brain'. Mae'r darlun yn dangos pa mor drist oedd yr arlunydd. Mae'r awyr yn dywyll a bygythiol a'r ffyrdd yn arwain ar draws y caeau tuag at awyr dywyll. Mae'r brain duon yn edrych fel ystlumod mawr yn hedfan dros y gwenith. Yn fuan ar ôl iddo orffen y darlun hwn fe'i saethodd ei hun a bu farw ddeuddydd wedyn.

O astudio ei ddarluniau gellir dweud fod ei deimladau dyfnaf yn dod yn amlwg ymhob darlun o'i eiddo.

Adnod: "Y mae rhai ohonynt a adawodd enw ar eu hôl i bobl allu traethu eu clod yn llawn." Ecclesiasticus 44:8

Gweddi: O Dduw, diolch i Ti am y rhai hynny sydd â'r ddawn i roi eu teimladau dyfnaf mewn darlun. Amen.

Trafod:

- Chwiliwch am luniau o ddarluniau Van Gogh. Sut fuasech chi'n cymharu ei luniau cynnar âi luniau diweddar?
- Fuasech chi'n hoffi cael cyfarfod â'r arlunydd?